# PROSIECT: **GOSOD PANELI SOLAR, GOLEUADAU 'LED' A CHREU CORIDOR BIOAMRYWIAETH**

**YMGEISYDD:** CLWB RYGBI NANT CONWY

NIFER Y RHANDDEILIAID A FU'N YMWNEUD Â'R PROSIECT
**10**

LLEOLIAD
**LLANRWST, CONWY**

CYFANSWM GWERTH Y PROSIECT
**£35,955.50**



## Y GRONFA CYMUNEDAU GWYRDD

Bwriad y Gronfa Cymunedau Gwyrdd, a weinyddir gan asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd, yw cefnogi gwelliannau i weithgareddau awyr agored ar gyfer y gymuned, a'r adnoddau cysylltiedig.

Gan ddefnyddio'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, rhoddwyd cymorth i 30 o ardaloedd yn siroedd Dinbych, Conwy, Y Fflint a Wrecsam i drawsnewid llecynnau awyr agored yn fannau lle bydd bywyd gwyllt yn ffynnu a chreu mannau dymunol i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

Mae rhai grwpiau wedi dewis gosod systemau ynni adnewyddadwy megis paneli solar i ostwng allyriadau carbon a helpu i leihau biliau tanwydd.

## Y PROSIECT

Roedd Clwb Rygbi Nant Conwy, dan arweiniad eu cadeirydd Glesni Jones, yn chwilio am gymorth i leihau eu hallyriadau carbon, a gwella eu darpariaeth i bobl leol.

Drwy'r cynllun Cymunedau Gwyrdd, ynghyd â chymorth Cadwyn Clwyd a'r fenter gymdeithasol Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), gwnaed gwelliannau allweddol i ganolfan y clwb, y stafelloedd newid a'r ardaloedd tu allan.



## NODAU'R PROSIECT

Mae Clwb Rygbi Nant Conwy yn ferw o weithgaredd cymunedol, gyda'r 500 aelod yn cynnwys tua 350 o chwaraewyr a 100 o wirfoddolwyr. Mae oedran y chwaraewyr yn ymestyn o blant dan saith i aelodau hŷn, mewn timau bechgyn a merched.

Mae'n llawer mwy na lle i chwarae rygbi'n unig oherwydd defnyddir yr adnoddau ar gyfer chwaraeon eraill megis beicio, twrnamentau ysgolion ac fel canolfan i gynnal gweithgareddau cymdeithasol.

Meddai Glesni said: "Bydd y gwelliannau'n ein helpu i wneud y clwb yn lle gwell byth i'r cyhoedd ddod a mwynhau eu hunain."

CYMUNEDAU GWYRDD
GREEN COMMUNITIES

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# GWEITHGAREDD

Gosodwyd paneli solar ar do canolfan y clwb a goleuadau LED ym mloc y stafelloedd newid. Hefyd, plannwyd gwrychoedd hyd ymylon y prif gaeau chwarae i greu llwybrau bioamrywiaeth a fydd yn helpu bywyd gwyllt i ffynnu.

Mae'r gwelliannau hyn wedi prysuro'r dydd y bydd y clwb yn cyrraedd ei nod o fod yn garbon niwtral.

Y ffocws nesaf fydd cynllun trydan dŵr a fyddai'n cwrdd yn llawn â chostau trydan y clwb, sydd ar hyn o bryd y swm pum ffigwr sylweddol.

Eglura Glesni: "Gyda chefnogaeth Cymunedau Gwyrdd, a chymorth DEG a fu'n rheoli'r prosiect, rydym wedi cael yr union bethau yr oeddem yn eu disgwyl allan o'r cynllun.

"Bu'n sbardun inni symud ymlaen fwy fyth yn y dyfodol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon posibl o ynni.

"Rydym yn awyddus iawn i ymchwilio ymhellach i bosibiliadau'r cynllun trydan dŵr. Os gallwn ei wireddu byddwn yn cwrdd yn llawn â'n costau ynni, a hyd yn oed yn medru gwerthu ynni wrth gefn i'r grid.

"Mae angen cynnal trafodaethau pellach, ond bu effaith y paneli solar a'r goleuadau LED yn gadarnhaol dros ben ac mae'r llwybrau bioamrywiaeth yn gyfraniad allweddol at ffyniant bywyd gwyllt y rhan hon o Ddyffryn Conwy."



*"MAE HON YN UN O'R WARDIAU MWYAF DIFREINTIEDIG YNG NGHYMRU, A BRO LLE MAE PRINDER ADNODDAU HAMDDEN. RYDYM FELLY'N BENDERFYNOL O GYNNIG CROESO CYNNES MEWN AWYRGYLCH BRAF I BAWB."*

*- GLESNI JONES*

# CANLYNIADAU

Eisoes, gwelwyd manteision y buddsoddiad newydd. Meddai Glesni: "Credwn y bydd y gwaith a wnaed yn Awst 2022 yn arbed tua £3,500 y flwyddyn i'r clwb.

"O luosogi'r swm honno 10 gwaith, fe welwch y bydd y paneli solar yn gwneud cyfraniad aruthrol i ffyniant y clwb hwn a'r gymuned a wasanaetha dros y ddeg mlynedd nesaf a thu hwnt.

"Mae canolfan y clwb yn lle tawel yn ystod y dydd, ond rhaid inni redeg y peiriannau oeri diodydd 24/7, sy'n golygu defnyddio llawer o drydan. Mae'n fonws mawr medru cwrdd â'r costau yma."

*Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.*

Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council · Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council · Wrexham County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam · Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales